

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd

Dyddiad:
Dydd Llun, 7 Hydref 2013

Amser:
14:30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

Gareth Williams
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8008/8019
PwyllgorMCD@cymru.gov.uk

Agenda

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant**
- 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 (Tudalennau 1 - 2)**
CLA(4)-23-13(p1) - Gwybodaeth Gefndir am Offerynnau Statudol
Gydag Adroddiadau Clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**CLA311 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth)
(Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) (Diwygio) 2013**

Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 21 Medi 2013; Fe'u gosodwyd ar: 26 Medi 2013; Yn dod i rym ar: 22 Hydref 2013

CLA313 – Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013

Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 27 Medi 2013; Fe'u gosodwyd ar: 1 Hydref 2013; Yn dod i rym ar: 31 Hydref 2013

CLA314 – Rheoliadau Cerbydau Modur (Digwyddiadau Oddi-ar-y-Ffordd) (Cymru) (Diwygio) 2013

Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 30 Medi 2013; Fe'u gosodwyd ar: 1 Hydref 2013; Yn dod i rym ar: 25 Hydref 2013

CLA315 – Rheoliadau Cerbydau Modur (Cystadlaethau a Threialon) (Cymru) (Diwygio) 2013

Y weithdrefn negyddol: Fe'u gosodwyd ar: 30 Medi 2013; Fe'u gwnaed ar: 1 Hydref 2013; Yn dod i rym ar: 25 Hydref 2013

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

CLA312 – Gorchymyn Diogelwch Tân Domestig (Diffinio Preswylfa) (Cymru) 2013

Y weithdrefn gadarnhaol; Yn dod i rym ar: 30 Ebrill 2014

3 Trafod y Bil Dadreoleiddio Drafft (Bil drafft y DU) (Tudalennau 3 - 13)

CLA(4)-23-13 (p2) – Papur Briffio Cyfreithiol

CLA(4)-23-13 (p3) – Papur Briffio Ymchwil

<http://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/joint-select/draft-deregulation-bill/>

4 Papurau i'w nodi (Tudalennau 14 - 20)

CLA(4)-23-13(p3) – Llythyr oddi wrth y Cadeirydd i Mr Maroš Šefčovič, Is-lywydd y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch Cynnig ar gyfer Rheoliad Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fesurau i leihau costau sefydlu rhwydweithiau cyfathrebu electronig cyflym (COM(2013)147).

CLA(4)-23-13(p4) – Ymateb gan Neelie Kroes, Is-lywydd y Comisiwn Ewropeaidd

CLA(4)23-13(p5) – Llythyr gan Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson.

Trafod Gohebiaeth oddi wrth Brif Weinidog Cymru mewn perthynas ag Adroddiad y Pwyllgor ar Bwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU (Tudalennau 21 - 26)

CLA(4)-23-13(p6) - Llythyr oddi wrth Brif Weinidog Cymru

Trafod yr Adroddiad Drafft ar yr Adolygiad i'r Ymchwiliad i'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU Hydref 2013 (Tudalennau 27 - 54)

CLA(4)-23-13 (p7) - Trafod yr Adroddiad Drafft ar yr Adolygiad i'r Ymchwiliad i'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU Hydref 2013

Trawsgrifiad

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#).

Eitem 2

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

CLA(4)-23-13 - Papur 1

GWYBODAETH GEFNDIR AM OFFERYNNAU STATUDOL GYDAG ADRODDIADAU CLIR

CLA311 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) (Diwygio) 2013

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio *Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau (Cymru) 2007* drwy ychwanegu swyddogaethau mewn perthynas â chymeradwyo neu benderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion o dan adrannau 51 neu 53 o *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*. Effaith y diwygiad yw rhoi disgrisiwn i awdurdod lleol benderfynu ai cyfrifoldeb y weithrediaeth yw'r swyddogaethau dan sylw.

CLA312 – Gorchymyn Diogelwch Tân Domestig (Diffinio Preswylfa) (Cymru) 2013

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r disgrifiad o'r dosbarthiadau o breswylfeydd yn y diffiniad o 'breswylfa' yn adran 6(1) o Fesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 drwy ychwanegu cartrefi plant fel dosbarth o breswylfa.

CLA313 – Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013.

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ailddeddfu gyda newidiadau y Rheoliadau 2010 cyfatebol. Maent yn parhau i weithredu gofynion yr UE sy'n ymwneud â'r lefelau uchaf o asid erwsig a halogion penodol mewn deunyddiau bwyd, yn ogystal â gweinyddu a gorfodi'r gofynion hynny.

CLA314 – Rheoliadau Cerbydau Modur (Digwyddiadau Oddi ar y Ffordd) (Diwygio) (Cymru) 2013

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o gyrff a benodir i awdurdodi digwyddiadau oddi ar y ffordd yng Nghymru. Maent hefyd yn darparu ar gyfer gosod ffioedd am geisiadau gan y cyrff awdurdodi, fel bod y ffioedd yn cael eu cyhoeddi a'u bod yn rhesymol.

CLA315 – Rheoliadau Cerbydau Modur (Cystadlaethau a Threialon) (Diwygio) (Cymru) 2013

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn penodi'r Royal Automobile Club Motor Sports Association Limited (yn lle'r Royal Automobile Club) fel y corff awdurdodi ar gyfer rhai digwyddiadau (heblaw am ras neu dreial o gyflymder) a gynhelir ar ffyrdd cyhoeddus.

Maent hefyd yn darparu bod y Royal Automobile Club Motor Sports Association Limited yn gallu penderfynu ar ei ffioedd ei hunan, ar yr amod bod y ffioedd yn cael eu cyhoeddi a'u bod yn rhesymol.

Eitem 3

PWYSIG: Mae'n bosibl bod y ddogfen hon ac unrhyw beth sydd wedi'i amgáu gyda hi yn cynnwys cyngor cyfreithiol sydd wedi'i roi yn gyfrinachol i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu unrhyw sefydliad arall sy'n rhan o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Os felly, mae'r cyngor yn destun braint broffesiynol gyfreithiol. Peidiwch ag anfon y ddogfen hon (neu unrhyw atodiad iddi) at unrhyw berson y tu allan i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru heb ganiatâd ysgrifenedig gan aelod o Adran Gwasanaethau Cyfreithiol y Comisiwn. Os ydych wedi cael y ddogfen hon drwy gamgymeriad, rhowch wybod i'r awdur ar unwaith drwy ei ffonio.

IMPORTANT: This document and any attachment may contain legal advice supplied in confidence to the National Assembly for Wales Commission or another organ of the National Assembly for Wales. If so, it will be subject to legal professional privilege. Do not forward this document (or any attachment) to any person outside the National Assembly for Wales Commission without the written permission of a member of the Commission's Legal Services Department. If you have received this document in error, please notify the author immediately by telephone

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Y BIL DADREOLEIDDIO drafft

Nodyn Cyngor Cyfreithiol

Cyflwyniad

1. Ym mis Gorffennaf 2013, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Fil Dadreoleiddio drafft. Sefydlwyd Pwyllgor ar y Cyd o ddau dŷ Senedd y DU i gynnal gwaith craffu cyn deddfu ar y Bil drafft a'r polisiau sy'n sail iddo. Cyhoeddodd y Pwyllgor hwnnw gais am dystiolaeth, i ddod i ben ar 16 Medi, ac mae'n bwriadu cyflwyno adroddiad erbyn 16 Rhagfyr. Un o'r cwestiynau a ofynnwyd gan y Pwyllgor oedd: 'Beth fydd goblygiadau'r Bil drafft ar gyfer y deddfwrfeydd datganoledig?' Mae'r Pwyllgor felly wedi gofyn am farn y deddfwrfeydd datganoledig, ac mae wedi cytuno i ganiatáu i dystiolaeth ddod i law gan y Cynulliad Cenedlaethol erbyn 11 Hydref.

Cefndir

2. Mae'r rhagair i'r Bil drafft yn ei ddisgrifio fel y cam diweddaraf yn ymdrech barhaus y Llywodraeth i gael gwared ar fiwrocratiaeth ddiangen sy'n costio miliynau o bunnoedd i fusnesau ym Mhrydain, sy'n llethu gwasanaethau cyhoeddus fel ysgolion ac ysbytai, ac sy'n amharu ar fywydau beunyddiol miliynau o unigolion. Mae'n egluro sut y mae cynnwys y Bil yn lleihau pwysau diangen mewn tri phrif faes:

- Rhyddhau busnesau o fiwrocratiaeth;
- Gwneud bywyd yn haws i unigolion a chymdeithas sifil; a
- Lleihau gofynion biwrocraidd ar gyrff cyhoeddus.

3. Mae'r Bil drafft yn cynnwys 65 o gymalau a 16 o Atodlenni. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymdrin â chael gwared ar y gofynion sy'n gysylltiedig â phynciau penodol, sy'n gysylltiedig i raddau amrywiol â gwahanol rannau'r Deyrnas Unedig.

Mewn perthynas â Chymru, mae nifer yn ymwneud â phynciau nad ydynt wedi'u datganoli, fel cyfraith cwmnïau, methdaliad a morgludiant rhyngwladol. Mae rhai eraill yn effeithio ar ddeddfwriaeth sy'n gymwys i Loegr yn unig. Mae'r rheini sy'n effeithio ar gyfraith Cymru a Lloegr ynghylch pynciau fel tai a llywodraeth leol yn fwy arwyddocaol. Fodd bynnag, mae archwiliad rhagarweiniol o'r darpariaethau manwl hynny'n awgrymu y cymerwyd gofal i gyfyngu effaith y newidiadau hynny i Loegr yn unig; gweler, er enghraifft, gymalau 20 a 21 sy'n ymwneud â thai.

4. Mae'r papur hwn felly'n canolbwyntio ar y darpariaethau a gaiff eu cymhwyso'n gyffredinol, yn hytrach na'r rhai penodol. Y rhain yw:

- Deddfwriaeth nad yw bellach o ddefnydd ymarferol (cymalau 50-57);
- Gweithredu swyddogaethau rheoleiddio (cymalau 58-61); a
- Darpariaethau cyffredinol (cymalau 62-65).

Deddfwriaeth nad yw bellach o ddefnydd ymarferol

5. Mae'r cysyniad o ddeddfwriaeth nad yw bellach o ddefnydd ymarferol yn ymddangos am y tro cyntaf yng nghymal 50, sy'n cyflwyno Atodlen 16. Mae hyn, yn ei dro, yn diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth benodol, a chaiff hyn ei egluro'n llawn yn y Nodiadau Esboniadol. Mae'r rhain yn rhoi syniad o'r math o amgylchiadau a allai arwain at benderfynu nad oes gan ddeddfwriaeth unrhyw effaith ymarferol. Enghraifft o hyn yw diddymu Deddf Cwmnïau Dŵr Statudol 1991 - yn dilyn preifateiddio ac aildrefnu'r sector dŵr, nid oes unrhyw gwmnïau bellach a fyddai'n dod o dan ddarpariaethau'r Ddeddf. Yn yr un modd, bydd Deddf Cynnyrch Amaethyddol (Graddio a Marcio) 1928 a Deddf Diwygio Cynnyrch Amaethyddol (Graddio a Marcio) 1931 yn cael eu diddymu oherwydd fod deddfwriaeth Ewropeaidd wedi'u goddiweddyd.

6. Mae darpariaeth fwyaf arwyddocaol y Bil i'w chael yng nghymal 51. Byddai hyn yn caniatáu i Weinidog y Goron anghymwysu deddfwriaeth pe bai'n ystyried nad oes gwerth ymarferol iddi bellach. Gallai'r Gweinidog wneud hyn drwy wneud gorchymyn yn unig. Gellid diddymu neu ddirymu deddfwriaeth yn gyffredinol, neu mewn perthynas â rhan benodol o'r DU. Mae'r Bil yn cynnwys enghreifftiau o ddeddfwriaeth San Steffan a fyddai'n anghymwysu bellach yn Lloegr, ond a fyddai'n parhau i fod yn gymwys yng Nghymru. Yn Neddf Gweinidogion y Goron 1975, diffinnir Gweinidog y Goron fel a ganlyn: 'the holder of an office in Her Majesty's Government in the United Kingdom, and includes the Treasury, the Board of Trade

and the Defence Council.' Mae deddfwriaeth at y dibenion hyn yn golygu Deddf (Seneddol) neu is-ddeddfwriaeth, ond nid Deddf neu Fesur y Cynulliad Cenedlaethol.

7. Fodd bynnag, ar sail cymal 57(2), gellid gweithredu'r pŵer Gweinidogol i ddiddymu deddfwriaeth mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaeth a wneir mewn Deddf Senedd yr Alban, mewn Deddf y Cynulliad Cenedlaethol, mewn Mesur y Cynulliad Cenedlaethol neu mewn deddfwriaeth Gogledd Iwerddon, neu oddi tanynt, ond dim ond i'r graddau bod y diddymiad yn ddarpariaeth achlysurol, atodol, canlyniadol, trosiannol, dros dro neu arbedol.

8. Os bydd gorchymyn arfaethedig yn cynnwys darpariaeth a ddaw o fewn cymhwyster deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol pe bai wedi'i gynnwys yn un o Ddeddfau'r Cynulliad, byddai'n rhaid i Weinidog y DU gael caniatâd Gweinidogion Cymru, ond nid caniatâd y Cynulliad Cenedlaethol. Mae cymalau dilynol yn nodi mai'r weithdrefn uwchgadarnhaol a fyddai'n gymwys yn San Steffan.

9. Ar hyn o bryd, byddai'r weithdrefn anstatudol ar gyfer Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn gymwys i orchmynion gan Weinidogion y DU sy'n gwneud darpariaethau o fewn cymhwyster deddfwriaethol y Cynulliad. Fodd bynnag, gallai Llywodraeth y DU ddadlau y byddai gofyniad statudol i geisio caniatâd gan Weinidogion Cymru yn disodli gweithdrefn anstatudol o'r fath.

Felly, gwahoddir y Pwyllgor i ystyried:

(a) a yw'n fodlon â'r darpariaethau fel y'u drafftwyd;

ac, os nad ydyw,

(b) a ddylai Gweinidogion y DU allu datgymhwyso darpariaethau a fyddai'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol mewn unrhyw fodd;

(c) a ddylent allu gwneud hynny gyda chaniatâd y Cynulliad Cenedlaethol yn hytrach na chaniatâd Gweinidogion Cymru; neu

(d) a ddylai'r Bil yn lle hynny ddarparu ar gyfer gorchmynion i'w gwneud gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaethau a ddaw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol; ac, os felly, pa weithdrefn gan y Cynulliad a ddylai fod yn gymwys i orchmynion o'r fath o San Steffan (gan gofio bod y weithdrefn uwchgadarnhaol yn cael ei defnyddio yn San Steffan).

Gweithredu swyddogaethau rheoleiddio

10. Mae cymal 58(1) yn darparu bod yn rhaid i'r person sy'n gweithredu swyddogaeth rheoleiddio y mae'r adran hon yn gymwys iddi gadw mewn cof ddymunoldeb hyrwyddo twf economaidd wrth weithredu'r swyddogaeth honno.

11. Byddai Gweinidog y Goron, drwy orchymyn, yn gallu pennu'r swyddogaethau rheoleiddio y byddai cymal 58 yn gymwys iddynt. Ni chaiff gorchymyn o'r fath bennu swyddogaeth rheoleiddio i'r graddau y mae'n arferadwy yng Nghymru os bydd, neu i'r graddau y bydd, swyddogaeth yn ymwneud â materion nad ydynt yn rhai datganoledig. Mae mater wedi'i ddatganoli yn golygu mater a ddaw o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol. Felly, ni fyddai'n gymwys, er enghraifft, i gael ei reoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, ond byddai'n gymwys i'r broses o reoleiddio darlledu yng Nghymru gan Ofcom.

A yw'r Pwyllgor yn fodlon?

Darpariaethau cyffredinol

12. Byddai cymal 62(1) yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud gorchymyn i wneud darpariaeth sydd, yn ei farn ef, yn briodol yn sgîl y Ddeddf. Gallai hynny gynnwys darpariaeth drosiannol, dros dro neu arbedol a gallai ddiwygio, diddymu, dirymu neu addasu darpariaethau deddfwriaethol, gan gynnwys y rheini a wnaed gan y Cynulliad Cenedlaethol. Er enghraifft, pe bai Deddf Cynulliad yn cyfeirio at ddeddfwriaeth a fyddai'n cael ei diddymu gan y Bil, gellid dileu'r cyfeiriad hwnnw. Yn y modd arferol, byddai gwelliannau i ddeddfwriaeth sylfaenol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn San Steffan; byddai newidiadau i is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

A yw'r Pwyllgor yn fodlon, neu a ddylid cynnwys gofyniad cydsynio mewn perthynas â deddfwriaeth sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol?

Gwasanaethau Cyfreithiol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Hydref 2013

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Bil Dadreoleiddio Drafft y DU

Papur briffio

Dyddiad y papur:

7 Hydref 2013

Cynhyrchwyd y papur briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil at ddefnydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Alys Thomas yn y Gwasanaeth Ymchwil
Estyniad ffôn: (8219)
E-bost: alys.thomas@cymru.gov.uk



Research
Service

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi gwybodaeth gefndirol i gyd-fynd â'r nodyn a baratowyd gan y Gwasanaethau Cyfreithiol.



1. Cyflwyniad

Cyhoeddwyd y **Bil Dadreoleiddio Drafft** ("y Bil Drafft") gan Swyddfa'r Cabinet ar **1 Gorffennaf 2013**. Mae'r Bil Drafft yn **diwygio neu'n diddymu 182 o ddarnau gwahanol o ddeddfwriaeth**, gan ddileu'r hyn a elwir gan Lywodraeth DU yn "feichiau diangen" ar dri phrif grŵp, sef busnesau, unigolion a chymdeithas sifil, a chyrrff cyhoeddus. Dywedodd y Gwir Anrhydeddus Ken Clarke QC AS:

I am as strongly in favour of sensible regulation as the next man, but only where it is necessary to prevent wrongdoing and protect the public. In recent years a mountain of unnecessary legislation has been piled onto the statute book, usually introduced with the most worthy motives. This regulatory burden wastes time and money for hard-working people and ties honest businesses and public bodies in bureaucratic knots.¹

Cafodd y **Cydbwyllgor ar y Bil Dadreoleiddio Drafft**, a gaiff ei gadeirio gan yr Arglwydd Rooker, ei benodi gan ddau Dŷ'r Senedd ar 17 Gorffennaf 2013 er mwyn cynnal gwaith craffu cyn deddfu ar y Bil Dadreoleiddio drafft a'r polisiau sy'n sail iddo. Mae'r Cydbwyllgor yn cynnwys chwe Aelod Seneddol a chwe Arglwydd (nad oes yr un ohonynt yn ASau o Gymru nac yn Arglwyddi sy'n gysylltiedig â Chymru). Bydd y Cydbwyllgor yn casglu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar ac yn gwneud argymhellion mewn adroddiad i'r ddau Dŷ. Mae'n ofynnol i'r Cydbwyllgor gwblhau ei adroddiad erbyn **16 Rhagfyr 2013**. Mae'r Cydbwyllgor wedi gwahodd sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig fel rhan o'r ymchwiliad. Gellir gweld cwestiynau'r ymgynghoriad yn **Atodiad 1** ac maent yn cynnwys y cwestiwn **Beth yw goblygiadau'r Bil drafft ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig?**²

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi gwybodaeth gefndirol i gyd-fynd â'r **nodyn a baratowyd gan y Gwasanaethau Cyfreithiol** ar y Bil Drafft.

2. Y Bil Drafft

Mae **Rhaglen Lywodraethu'r Glymblaid** y cytunwyd arni gan y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol ym mis Mai 2010 yn nodi, "We will cut red tape by introducing a 'one-in, one-out' rule whereby no new regulation is brought in without other regulation being cut by a greater amount."³

Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi cyflwyno mesurau dadreoleiddio nad oeddent yn cynnwys deddfwriaeth:

- symleiddio mawr ar y system gofrestru a thalu ar gyfer taliadau cwmnïau;
- cyflwyno rheolau newydd sy'n eithrio cannoedd ar filoedd o fusnesau risg isel rhag arolygiadau iechyd a diogelwch;

¹ [Swyddfa'r Cabinet, *Government unveils Deregulation Bill*, Datganiad i'r Wasg, 1 Gorffennaf 2013 \[fel ar 2 Hydref 2013\]](#)

² [Senedd y DU, y Cydbwyllgor ar y Bil Dadreoleiddio Drafft, *Have your say on the Draft Deregulation Bill*, Datganiad i'r Wasg, 31 Gorffennaf 2013 \[fel ar 2 Hydref 2013\]](#)

³ [Llywodraeth y DU, *Rhaglen Lywodraethu'r Glymblaid*, Mai 2010 \[fel ar 3 Hydref 2013\]](#)

Cyfeirnod y Pwyllgor: CLA(4)-x-13

- cyflwyno gwiriad Cofnodion Troseddol cludadwy, y gall cyflogwyr ei weld ar unwaith ar-lein, gan osgoi'r angen i gynnal gwiriad o'r newydd yn y rhan fwyaf o achosion;
- ailwampio hawliadau o beidio codi ffi os nad yw achos cyfreithiol yn llwyddiannus (no win, no fee);
- cynyddu'r cyfnod cymhwyso ar gyfer diswyddo annheg i ddwy flynedd;
- cyflwyno cymhellion newydd i sicrhau y caiff gwaith ar y ffyrdd prysuraf ei wneud yn ystod adegau tawel.

Yn araith y Frenhines yn 2013, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y câi Bil ei gyflwyno i leihau'r baich ar fusnesau o ganlyniad i reoleiddio gormodol. Nodwyd y canlynol:

The Deregulation Bill would be part of the Government's agenda to reduce the burden of excessive or unnecessary regulation where primary legislation is required. The Bill will be published in draft for pre-legislative scrutiny. Many other regulations are being scrapped and reformed either administratively or via secondary legislation.⁴

Yn ôl Llywodraeth y DU, byddai prif fanteision y Bil Drafft yn cynnwys **lleihau** neu ddileu beichiau ar fusnesau a chymdeithas sifil a hwyluso twf; lleihau neu ddileu beichiau ar gyrff cyhoeddus, trethdalwyr neu unigolion a thacluso'r llyfr statud drwy ddiddymu deddfwriaeth nad yw'n ymarferol mwyach.

Mae'r Bil Drafft yn nodi amryw fesurau sydd wedi'u hanelu at dri grŵp:

Mae'r darpariaethau sy'n effeithio ar **fusnesau** yn cynnwys:

- diddymu rheolau iechyd a diogelwch ar gyfer gweithwyr hunangyflogedig mewn swyddi risg uchel;
- gosod dyletswydd i fynnu bod rheoleiddwyr aneconomaidd yn rhoi sylw i effaith eu gweithredoedd ar dwf;
- gwella hyblygrwydd y system brentisiaethau a'i gallu i ymateb i anghenion cyflogwyr a'r economi. Bydd y Bil yn dileu llawer o'r manylion rhagnodol a geir yn y deddfwriaeth bresennol ac yn rhoi eglurder i statws cyflogaeth prentisiaid;
- dileu pwerau dyfarnwyr mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth i gyhoeddi argymhellion ehangach.⁵

Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud ag **unigolion a chymdeithas sifil** yn cynnwys:

- lleihau'r cyfnod y mae'n rhaid i bobl fyw yn eu tai cymdeithasol er mwyn cymhwyso i gael yr Hawl i Brynu o bum mlynedd i dair blynedd
- dileu cosbau i bobl sy'n gwneud camgymeriad wrth roi eu biniau allan
- dadreoleiddio'r hawl i ddangos ffilmiau mewn neuaddau pentref a chanolfannau cymunedol yn ddielw, gan ei gwneud yn haws i elusennau bach a grwpiau cymunedol gynnal nosweithiau ffilm

⁴ [GOV.UK, Araith y Frenhines 2013: nodiadau briffio cefndirol, 8 Mai 2013, tudalen 19 \[fel ar 2 Hydref 2013\]](#)

⁵ [Swyddfa'r Cabinet, Government unveils Deregulation Bill, Datganiad i'r Wasg, 1 Gorffennaf 2013 \[fel ar 2 Hydref 2013\]](#)

Cyfeirnod y Pwyllgor: CLA(4)-x-13

- datganoli penderfyniadau ar hawliau tramwy i lefel leol⁶

Mae'r darpariaethau sy'n effeithio ar **gyrff cyhoeddus** yn cynnwys:

- dileu'r gofynion rhagnodol ar awdurdodau lleol i ymgynghori ar strategaethau amrywiol a'u paratoi, gan eu rhyddhau yn fwy o reolaeth ganolog
- rhyddhau ysgolion o waith papur dibwynt a gofynion rhagnodol gan lywodraeth ganolog.⁷

Mae'r Bil Drafft hefyd yn cyflwyno system newydd a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i'r Senedd adnabod unrhyw ddeddfwriaeth annadleuol, a chael gwared arni'n fwy cyflym.

Dylid cyfeirio at nodyn y Gwasanaethau Cyfreithiol i weld sut y bydd y darpariaethau hyn yn effeithio ar Gymru.

Mae Nodiadau Esboniadol y Bil Drafft yn nodi:

Some provisions in the Bill deal with matters which have been devolved. It is therefore envisaged that some legislative consent motions may be needed at the appropriate time. Discussions with the devolved administrations about provisions in the Bill which relate to devolved matters are ongoing. The purpose of these discussions is to determine whether the governments in Wales, Scotland and Northern Ireland wish these provisions to be included in the Bill on introduction to Parliament.⁸

Mae **Cymdeithas Cyfreithwyr yr Alban** wedi cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil Drafft. Mae'n nodi'r canlynol mewn perthynas â darpariaethau sy'n ymwneud â deddfwriaeth nad yw'n ymarferol mwyach (Cymalau 51 - 57):

Clause 51 his allows a Minister of the Crown to make an order for legislation to cease to apply if the Minister considers it is of no practical use. The Order can repeal or revoke the legislation or amend it.

In terms of Clause 52, before making an Order under Section 51 which contains provisions which would be within the legislative competence of the Scottish Parliament, if it were contained in an Act of that Parliament, the Minister must obtain the consent of the Scottish Ministers. Clauses 52(2) and (3) apply a similar provision to Wales and Northern Ireland.

The Society questions whether it is appropriate for a Minister acting under Section 5, where the Order would contain a provision which would be within the legislative competence of the Scottish Parliament, that the Minister should only require the consent of Scottish Ministers and not the Scottish Parliament. The lack of Parliamentary engagement in connection with such Orders which affects Scottish legislation or indeed Welsh or Northern Irish devolved legislation lacks proper democratic engagement. These concerns also extend to Clause 57.⁹

⁶ [Swyddfa'r Cabinet, *Government unveils Deregulation Bill*, Datganiad i'r Wasg, 1 Gorffennaf 2013 \[fel ar 2 Hydref 2013\]](#)

⁷ [Swyddfa'r Cabinet, *Government unveils Deregulation Bill*, Datganiad i'r Wasg, 1 Gorffennaf 2013 \[fel ar 2 Hydref 2013\]](#)

⁸ [Y Bil Dadreoleiddio Drafft, Nodiadau Esboniadol, 1 Gorffennaf 2013 \[fel ar 3 Hydref 2013\]](#)

⁹ [Cymdeithas Cyfreithwyr yr Alban, y Bil Dadreoleiddio drafft: Ymateb, Medi 2013 \[fel ar 3 Hydref 2013\]](#)

Atodiad: Cwestiynau'r Ymgynghoriad

General

1. The draft Bill covers a broad range of specific activities and a large amount of legislative provision is amended by it. Could the same result have been achieved using existing secondary legislative procedures?
2. What are the advantages and disadvantages of including specific deregulatory provisions amending existing legislation and providing additional or amended order making powers within primary legislation rather than considering them through existing deregulatory mechanisms?
3. Are the changes proposed in the draft Bill evidence-based and have any risks associated with the changes been taken adequately into account?
4. Does the draft Bill achieve its purpose of reducing the regulatory burden on business, organisations and individuals effectively and fairly?
5. Will the draft Bill generally benefit businesses by offsetting other regulatory burdens? Are there indirect impacts on other businesses from reducing regulation in specific sectors?
6. To what extent does the draft Bill benefit consumers as well as businesses?
7. How does the provision in the draft Bill affect:
 - i. protections afforded to individuals under human rights and equalities legislation?
 - ii. employment law, skills and the labour market?
 - iii. the environment, particularly in the management of waste?
 - iv. the provision of education?
 - v. the effective administration of justice?
 - vi. social, wellbeing or health inequalities?
8. Have the measures set out in the draft Bill been subject to adequate cost-benefit analysis on the basis of consultation with those affected?
9. Will any or all of the proposals have any significant economic or financial impact? Do you have any evidence of the impact that will aid the Committee in their scrutiny?

Power to disapply legislation no longer of practical use

10. Is a new “power to disapply legislation no longer of practical use” necessary or are there existing procedures which could be used to achieve the same effect?” (Clause 51)?
11. Is the meaning of the phrase “no longer of practical use” clear? In this context, what is meant by “practical”? Should it be defined and, if so, how? Will removing any of the provision proposed in Schedule 16 of the draft Bill have implications for any other areas of regulation?

Cyfeirnod y Pwyllgor: CLA(4)-x-13

12. Are the safeguards regarding the use of the “no longer of practical use” power (set out in Clauses 54 to 56) adequate and appropriate?
13. Other deregulatory mechanisms such as Legislative Reform Orders or Public Bodies Orders have specific tests set out in the parent Act - should there be similar tests set out in the draft Bill? What should they be?
14. Are the mechanisms set out for parliamentary oversight (Clauses 55 and 56) of deregulation orders adequate and appropriate?
15. Are there other changes to deregulatory powers, procedures and parliamentary oversight which you think should have been included in the Bill and, if so, why?
16. What are the risks associated with the proposed new power to disapply legislation that is “no longer of practical use”?

A duty to have regard to the desirability of promoting economic growth

17. To what extent do the Government’s existing powers of direction over regulators already provide the ability to guide regulators towards the importance of promoting economic growth? Is this legislation necessary?
18. Will the introduction of a duty to have regard to “promoting economic growth” compromise the independence of regulators? What additional safeguards are required to ensure that the introduction of such a duty will not compromise the independence of a regulator?
19. How is a duty to have regard to the desirability of economic growth likely to affect those regulators to which it is applied?
20. Where is the introduction of such a duty likely to have beneficial effect? Where might there be adverse consequences?
21. How might the extent to which a regulator has fulfilled, or breached, the duty be ascertained?
22. How can the likely financial and economic impact of the proposed duty be assessed?

Devolution

23. What are the consequences of the draft Bill for the devolved administrations?

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Constitutional and Legislative Affairs Committee

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



Mr Maroš Šefčovič
Vice-President of the European Commission responsible for
Inter-Institutional Relations and Administration
Rue de la Loi 200
1049 Brussels
Belgium
SW1A 0PW

15 May 2013

Dear Vice President Šefčovič

Proposal for a Regulation of the European Parliament and of the Council on measures to reduce the cost of deploying high-speed electronic communications networks (COM(2013)147)

I wanted to draw to your attention recent correspondence on subsidiarity concerns raised by the National Assembly for Wales' Constitutional and Legislative Affairs Committee (which I Chair) at its meeting last week.

I have written to William Cash MP and to Baroness O'Cathain, the Chairs respectively of the House of Commons' European Scrutiny Committee and the House of Lords' EU Sub-Committee B, about the above proposal. I attach a copy of my letters and the associated report from my Committee.

As you will be aware, the Treaty of Lisbon introduced an 'early warning mechanism' on subsidiarity (set out in Protocol No.2 to the treaty) which gives national parliaments (in consultation with their regional parliaments where appropriate) the opportunity to submit 'Reasoned Opinions' to the European Commission on any subsidiarity aspects of draft legislative proposals published by the EU Institutions.

You will see from the correspondence that the Constitutional and Legislative Affairs Committee shares the concerns raised by both the UK Government and the House of Commons European Scrutiny Committee. In particular, the Committee believes that the proposed Regulation's aim would be best achieved by action at Member State level, and that the measures supported by the proposed Regulation – such as infrastructure sharing, information

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8008
E-bost / Email: david.melding@wales.gov.uk

provision, street works coordination and in-built broadband equipment in buildings – would all be best implemented at a local level.

I would be grateful if you could take the Committee's representations into account, on behalf of the National Assembly for Wales. As a sub-state legislature we aim to engage positively with EU matters, particularly in relation to our consideration of issues relating to subsidiarity. We very much look forward therefore to hearing your thoughts on how our concerns could be effectively addressed.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink that reads "David Melding". The signature is written in a cursive style with a long, sweeping underline that extends to the right.

David Melding AM
Chair

NEELIE KROES

VICE-PRESIDENT OF THE EUROPEAN COMMISSION

Brussels, 30 SEP. 2013

Dear Mr Melding,

I would like to thank the National Assembly for Wales for its letter concerning the Proposal for a Regulation of the European Parliament and of the Council on measures to reduce the cost of deploying high-speed electronic communications networks {COM(2013) 147 final}. Your letter has been transferred to me by Vice-President Šefčovič.

The development of the digital economy is a key driver for creating growth and jobs in Europe and has therefore a major role to play in Europe's economic recovery. Hence the ambitious broadband targets set out in the Digital Agenda for Europe to be reached by 2020. Moreover, ubiquitous high-speed networks are a prerequisite for bridging the digital divide and ensuring regional cohesion. Investments in Europe are lagging behind the rest of the world, so if we are to unlock the potential of the digital economy and strengthen Europe's competitiveness, our efforts will have to be stepped up significantly. The measure which the Commission proposed in March has the potential to reduce costs of EU-wide deployment by up to 30% (or 60 billion euros), notably by allowing the use of existing passive infrastructure under certain conditions and by cutting red tape.

The proposed Regulation is one of the 12 key actions identified in the Communication 'Single Market Act II: Together for Growth'¹ which will boost growth, employment and confidence in the Single Market and generate real effects on the ground.

I took good note of the concerns expressed by the Assembly and would like to react, at this stage, as follows:

Mr. David Melding AM
Chair of the National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

¹ Communication from the Commission to the European Parliament, the Council, the Economic and social Committee and the Committee of the Regions, COM(2012)573 of 3.10.2012, http://ec.europa.eu/internal_market/smact/docs/single-market-act2_en.pdf.

The proposed Regulation aims at removing barriers to the functioning of the Single Market, which are caused by the existence of a patchwork of rules at national and sub-national levels. Such patchwork causes delays in network deployment, and affects the costs. In our view, addressing such fragmentation can best be achieved at EU level. Action at Union level is also better suited to ensure equal treatment and non-discrimination of undertakings and investors throughout the EU. In particular, it is an obstacle to the completion of the digital single market that utilities may offer their physical infrastructure in one Member State and not in another. Another obstacle results from the patchwork of rules, applicable in the different Member States which causes delays in network deployment, and affects the costs. While the deployment of networks is effectively locally implemented, it is decided, financed and designed at national and supra-national level. Leaving aside international connectivity, which has a cross-border character per se, when electronic communications providers are deploying high-speed broadband, they do it on an efficient scale, which has effect at EU level.

The proposal follows from a request from the Heads of State and Government meeting at the European Council in March 2012 to prepare measures to reduce the costs of roll-out of broadband in the EU². Last December, the European Council endorsed a legally binding instrument at EU level as part of the so-called Single Market Act II³. The type of legal instrument, a Regulation, was carefully chosen by the Commission in view of its efficiency and effectiveness: by focussing on a limited number of directly applicable rights and obligations, it aims at removing identified obstacles and barriers to the development of the digital single market, without harmonising and interfering with organisational issues, which are left to the discretion of Member States.

Furthermore, in view of the current level of underinvestment, important steps need to be taken rather urgently. Hence the choice of a Regulation, which can deliver results quickly, rather than a Directive, which would need a significant amount of time for transposition and could not achieve the same level of harmonisation in the context of a fragmented single market.

The Regulation builds on national best practice and aims at scaling them up at EU level. National best practice is not affected by the proposal. In accordance with the principle of subsidiarity however, Member States may adopt more detailed rules or provisions complementing the rights and obligations specified in the proposed legal instrument, for example to establish data bases of existing physical infrastructure at the level of detail they believe best. With regard to procedural issues, the proposal respects the constitutional distribution of powers of Member States, especially those with decentralised exercise of power, such as the UK, by allowing Member States to allocate the powers provided by this Regulation to the authority and at the level of aggregation which is best suited to exercise it.


² Conclusions of the European Council of 1/2 March 2012, EUCO 4/2/2012, available at <http://register.consilium.europa.eu/pdf/en/12/st00/st000004-re02.en12.pdf>, page 5.

³ Conclusions of the European Council of 13/14 December 2012, EUCO 205/12, <http://register.consilium.europa.eu/pdf/en/12/st00/st00205.en12.pdf>, item 17.

Lastly, the possibility of Member States to exempt, for proportionality reasons, from the application of this Regulation categories of infrastructure or buildings further guarantees in our view that the Commission has taken due consideration of the principle of subsidiarity.

I hope that these clarifications address the concerns raised by the National Assembly for Wales and look forward to continuing our political dialogue in the future.

Yours faithfully,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Medina', with a long horizontal stroke underneath it.



Ein cyf/Our ref LF/GT/0954/13

David Melding AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion
Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

2 Hydref 2013

Annwyl David,

Diolch am gyfarfod â mi ar 30 Medi i drafod adroddiad eich Pwyllgor ar ei waith craffu Cyfnod 1 ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Fe siaradon ni am Argymhellion 8 a 13 ac fe ofynnais i chi egluro'r sail resymegol drostynt. Roeddwn i am ysgrifennu atoch i amlinellu fy marn am yr Argymhellion hyn.

Argymhelliad 8 – Rydym yn argymhell y dylai'r Dirprwy Weinidog gyflwyno diwygiad i'r Bil a fydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddefnyddio'r weithdrefn Gadarnhaol yn y lle cyntaf wrth lunio Rheoliadau o dan Adrannau 92 a 93, ac yna'r weithdrefn Negyddol i ddilyn.

Rwy'n cofio trafod hyn yn ystod fy sesiwn dystiolaeth gyda chi. Fodd bynnag, yr hyn a drafodwyd yn bennaf oedd a ddylid rhoi manylion y Rheoliadau o dan yr adrannau hyn ar wyneb y Bil, a chynnwys llai am y weithdrefn ar gyfer y Rheoliadau hyn. Yn syml, y cyfan y mae'r pwerau hyn yn ei wneud yw ailddatgan y pwerau yn Neddf Plant 1989, ac maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn Negyddol ar hyn o bryd. Yn ein cyfarfod, fe ddywedoch chi fod eich Pwyllgor yn awyddus i'r weithdrefn Gadarnhaol gael ei defnyddio'n fwy eang ond, yn hyn o beth, ni welaf unrhyw reswm dros wyro oddi wrth y trefniadau sydd eisoes ar waith ac yn gweithio'n dda.

Argymhelliad 13 – Rydym yn argymhell y dylai'r Dirprwy Weinidog gyflwyno diwygiad a fydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddefnyddio'r weithdrefn Gadarnhaol mewn perthynas ag Adran 144 o'r Bil.

Mae'n ymddangos bod yr argymhelliad hwn wedi codi o ganlyniad i gamddealltwriaeth mewn perthynas â'r gweithdrefnau ar gyfer y pwerau o dan adrannau 143 a 144, a all fod wedi bod yn seiliedig ar wall argraffu yn y Memorandwm Esboniadol a nododd fod y pwerau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn Gadarnhaol. Wrth gwrs, bydd y gwall hwn yn cael ei gywiro ar ôl trafodion Cyfnod 2.

Yn wir, mae adran 143 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn Negyddol. Oherwydd natur adran 144, sy'n cynnwys pŵer i lunio Rheoliadau yn adran 25 o Ddeddf Plant 2004, nid oes unrhyw weithdrefn yn berthnasol i'r pŵer hwnnw ar hyn o bryd.

Yn ogystal, yn ystod fy sesiwn dystiolaeth gyda chi, credaf i Suzy Davies AC gamddeall fy mwriadau mewn perthynas ag adran 144. Credaf na ddylai'r weithdrefn Gadarnhaol fod yn berthnasol yn hyn o beth. Ceisiais egluro'r pwynt hwn yn y Pwyllgor, ond nid yw hyn wedi'i adlewyrchu yn eich adroddiad nac yn eich argymhellion.

O ran adran 147, gwnaeth y Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol argymhellion ar gyfer cryfhau trefniadau partneriaeth ac rwyf o blaid cyflwyno diwygiadau i'r diben hwn.

I gloi, hoffwn ychwanegu fy mod yn ddiolchgar i chi am fynegi eich barn yn y cyfarfod, fy mod wedi cyflawni llawer tuag at fodloni argymhellion eich Pwyllgor a fy mod yn edrych ymlaen at drafod y materion hyn ymhellach ar 8 Hydref.

Yn gywir

A handwritten signature in cursive script that reads "Gwenda". The signature is written in dark ink on a white background. A vertical line is drawn through the signature, likely for scanning or archival purposes.

Gwenda Thomas AC / AM

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Eitem 5.1

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon